

BWRDEISTREF SIROL CONWY

ENWI STRYDOEDD - CYFARWYDDYD AR Y DREFN

1. O'r UNFED DYDD AR BYMTHEG O FAI 1996, mae darpariaethau Adrannau 17 a 18 Deddf Iechyd y Cyhoedd 1925 wedi bod mewn grym ledled y Fwrdeistref Sirol mewn perthynas ag enwi neu newid enw stryd.

2. Dylai unrhyw unigolyn neu ddatblygwr sy'n dymuno cynnig enw ar gyfer stryd o fewn y Fwrdeistref Sirol gyflwyno ei gynnig/chynnig mewn ysgrifen*, ynghyd â chynllun safle yn dangos lleoliad y stryd yn eglur, i'r Uned Drwyddedu a Chofrestru, Swyddfeydd Dinesig, Bae Colwyn LL29 8AR. (Pwysleisir y dylai unigolion neu ddatblygwyr sy'n bwriadu cyflwyno cynigion o'r fath ymgynghori yn gyntaf â'r Uned, er mwyn sicrhau nad oes gwrthdaro ag enwau a roddwyd ar strydoedd yn barod. Yn arbennig, cynghorir datblygwyr tai newydd, ar ôl derbyn caniatâd cynllunio, i ymgynghori rhag blaen â'r Uned ynglŷn â threfniadau rhifo tai ac enwi strydoedd).

3. O fewn mis i gyflwyno cynigion ar gyfer enwi stryd, neu unrhyw gyfnod hwy y cytunir arno ar y cyd, bydd y Cyngor Bwrdeistref Sirol yn rhoi gwybod i'r cynigydd a dderbyniwyd ei gynnig ai peidio. Pan fydd y Cyngor Bwrdeistref Sirol yn gwrthwynebu enw a gynigir, bydd gan y cynigydd hawl i apelio i Lys Ynadon o fewn 21 diwrnod i gael yr wybodaeth.

4. Ni chaniateir codi enw stryd yn y stryd o fewn mis i gyflwyno'r cynnig i'r Cyngor Bwrdeistref Sirol, neu os bydd y Cyngor Bwrdeistref Sirol yn gwrthwynebu'r cynnig o fewn y cyfnod hwn, hyd nes y bydd y gwrthwynebiad wedi'i ddatrys trwy Lys Ynadon

COUNTY BOROUGH OF CONWY

THE NAMING OF STREETS - GUIDANCE ON PROCEDURE

1. As from the SIXTEENTH DAY OF MAY 1996 the provision of Sections 17 and 18 of the Public Health Act 1925 have been in force throughout the County Borough in relation to the naming or alteration of a name of a street.

2. Any person or developer wishing to propose a name for a street within the County Borough, shall submit his/her proposal in writing*, accompanied by a site plan clearly indicating the location of the street, to the Licensing and Registrations Unit, Civic Offices, Colwyn Bay LL29 8AR. (Persons or developers submitting such proposals are strongly advised to undertake prior consultation with the Unit, to ensure that there is no conflict with existing street names. In particular, new housing developers are advised, after receiving planning consent, to seek early consultation with the Unit regarding house numbering arrangements and street names)

3. Within one month, or such extended period of time as may be jointly agreed, of submission of proposals for a street name, the County Borough Council will notify the proposer of the acceptance or otherwise of the proposal. Where the County Borough Council object to a proposed street name, the proposer may within 21 days of notification appeal to the Magistrates Court.

4. A street name may not be set up on the street within one month of the proposal submission to the County Borough Council, or if within this period the County Borough Council object to the proposal, until the objection has been resolved through the Magistrates Court.

5. Mae'r Cyngor wedi datblygu polisi dwyieithog ac mae'n cefnogi defnyddio enwau llefydd Cymraeg traddodiadol lle mae'r rhain yn briodol i'r ardal a ddatblygir, a bydd yn ffafrio enwau sy'n adlewyrchu cymeriad yr ardal. Cynghorir cynigwyr i ymgynghori â chymdeithasau hanes lleol cyn cyflwyno cynigion. Lle cyfyd amgylchiadau arbennig, cymerir y rhain i ystyriaeth gan y Cyngor.

* Ar Ffurflen S.N.2.
Mair Roberts
Uned Drwyddedu a Chofrestru,
Swyddfeydd Dinesig
BAE COLWYN
LL29 8AR

(Mai 1996)

5. The Council have developed a bilingual policy and supports the use of traditional Welsh place names where these are appropriate for the area under development, and will favour names that reflect the character of the area. Proposers are advised to consult local historical societies prior to submitting proposals. Where special circumstances arise, these will be taken into consideration by the Council.

* On form S.N.2.
Mair Roberts
Licensing and Registrations Unit,
Civic Offices
COLWYN BAY
LL29 8AR

(May 1996)

I'r: Adran Drwyddedu a Chofrestru
Swyddfeydd Dinesig
BAE COLWYN
LL29 8AR

To: Licensing and Registration Division
Civic Offices
COLWYN BAY
LL29 8AR

Ffôn/Tel: 01492 576626

Ffacs/Fax: 01492 574036

**BWRIAD I ENWI STRYD/ TŶ O FEWN
BWRDEISTREF SIROL CONWY**

**PROPOSAL FOR THE NAMING OF
A STREET and or /HOUSE WITHIN THE
COUNTY BOROUGH OF CONWY**

Rhif y Cais Cynllunio	<input type="text"/>	Planning Application No.
Cyfeirnod Rheoli Adeiladu	<input type="text"/>	Building Control Reference
Enw'r Datblygwr	<input type="text"/>	Name of Developer
Cyfeiriad gohebu	<input type="text"/>	Address for correspondence
Rhif Ffôn	<input type="text"/>	Telephone Number
Lleoliad y stryd/adeilad i'w enwi/rifo	<input type="text"/>	Location of street/property to be named / numbered
Newid enw adeilad	<input type="text"/>	Change a name of a property

Yn unol â darpariaethau Adran 17 Deddf Iechyd Cyhoeddus, 1925, rwy'n cynnig bod y stryd uchod yn cael ei henwi fel a ganlyn:-

In accordance with the provisions of Section 17 of the Public Health Act, 1925, I propose that the above street shall be named as follows:-

Nodwch y cyfeiriad yn llawn

Please enter the address in full

Llofnod

Signed

**Cynllun Safle / Lleoliad i'w amgáu gyda'r
cynnig hwn ar gyfer adeiladau newydd ac
wrth newid enw adeilad**

**Site / Location plan to be enclosed
with this proposal for new builds
and name change**

S.N.2